CIOB
The Chartered Institute of Building



# Maniffesto Cymru CIOB 2026

# Cynnwys:



01
Rhagair



02
Cyflwyniad



03
Argymhellion

ciob.org

This report was written by David Kirby,
Senior Policy and Public Affairs Officer - Wales
Published by the Chartered Institute of Building (CIOB). Copyright CIOB 2026

**X:** @theCIOB
**Facebook:** www.facebook.com/theCIOB
**LinkedIn:** search 'CIOB'
**YouTube:** CIOBTV

CIOB, 3 Arlington Square, Downshire Way, Bracknell, RG12 1WA, UK
+44 (0)1344 630 700 | policy@ciob.org.uk
Registered Charity No. (England and Wales) 280795 and (Scotland) SC041725

# Rhagair

**Mae'r diwydiant adeiladu yn faromedr o'r dirwedd economaidd yng Nghymru. Fel gwlad, mae angen i ni ganolbwyntio ar greu cyfoeth, arloesedd, cyflogaeth a chynaliadwyedd, a fydd yn creu galw am adeiladu i yrru'r economi. Mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru roi'r blaenoriaethau hyn yn gyntaf.**



**O fewn y blaenoriaethau hyn, mae digon o gyfleoedd i fanteisio ar adnoddau naturiol toreithiog Cymru, gyda chynaliadwyedd ac arloesedd wrth wraidd y rhain.**

Diwydiannau megis cynhyrchu a storio ynni; yn ogystal â chynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd. A allwn ni harneisio glaw mewn ffordd well? A allwn ni adeiladu cronfeydd dŵr gyda generaduron trydan dŵr a defnyddio'r dŵr hwnnw i oeri canolfannau data cyfagos, gan ganiatáu i Gymru ddod yn ganolfan arloesi gynaliadwy ar gyfer deallusrwydd artiffisial? A allwn ni ehangu'r cyfleoedd gwledig hyn i atyniadau twristaidd drwy gydol y flwyddyn, gan roi hwb y mae mawr ei angen ar economïau gwledig lleol? A allwn ni wneud i Gymru weithio'n well i bobl Cymru?

Yr ateb i'r rhain i gyd yw, neu dylai fod, "gallwn". Fodd bynnag, rhaid datblygu'r prosiectau hyn ochr yn ochr â chymunedau, rhaid eu bod yn eiddo iddynt, a rhaid eu defnyddio er budd cymunedau, y bobl ynddynt, a Chymru gyfan.

> Mae'r Maniffesto hwn hefyd yn argymell camau ymarferol a realistig y gallai'r Llywodraeth Cymru nesaf a'r Seithfed Senedd eu cymryd i wella'r sector adeiladu er budd Cymru, gan gynnwys sut i ysgogi gweithlu mwy amrywiol a sicrhau datgarboneiddio ein hamgylchedd adeiledig.

Y gwir, fodd bynnag, yw, heb sector adeiladu ffyniannus – y mae'r mwyafrif ohono'n Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) – na fydd yr un o'r prosiectau hyn na nodau ehangach Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus.

Er bod Llywodraeth Cymru a'r Chweched Senedd wedi cymryd rhai camau i wella'r sector adeiladu drwy ddeddfwriaeth megis *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)* sydd ar ddod, mae'r maniffesto hwn yn galw am ddiwygio caffael ehangach, ac i gynnwys awdurdodau lleol a chynghorau yn fwy yn y broses dendro er mwyn sicrhau y gall unrhyw brosiectau gyflawni ar gyfer cymunedau.

Mae'r Maniffesto hwn hefyd yn argymell camau ymarferol a realistig y gallai'r Llywodraeth Cymru nesaf a'r Seithfed Senedd eu cymryd i wella'r sector adeiladu er budd Cymru, gan gynnwys sut i ysgogi gweithlu mwy amrywiol a sicrhau datgarboneiddio ein hamgylchedd adeiledig.

Mae CIOB yn edrych ymlaen at weithio gyda llunwyr polisi yn 2026.

**Wyn T Harries FCIOB**
Cadeirydd, CIOB Cymru

# Cyflwyniad

**Mae'r sector amgylchedd adeiledig ac adeiladu yng Nghymru yn parhau i fod yn gyflogwr a sbardun economaidd allweddol. Fel y dywedom yn ein Maniffesto 2021, "mae'n dylanwadu ar gynhyrchiant a lles gartref ac yn y gwaith. Mae'n creu ac yn cynnal y lleoedd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt, [a'r] isadeiledd sy'n eu cefnogi."[1]**

**Mae'r teimlad hwn yn parhau i fod yn wir, ac yn parhau i gael ei gydnabod gan lunwyr polisi ar bob lefel ac aelodau'r cyhoedd ledled Cymru. Ers 2021, fodd bynnag, ac etholiad diwethaf y Senedd, mae'r sector adeiladu yn parhau i gael trafferth ar ôl y pandemig.**

Mae'r diwydiant yn wynebu problemau recriwtio a bwlch sgiliau cynyddol, ochr yn ochr â chostau ynni uchel parhaus, costau deunyddiau, costau llafur, ac economi sy'n profi anawsterau ehangach. Mae'r holl bwysau hyn yn gwaethygu, ac yn golygu bod y sector yng Nghymru yn cael trafferth o'i gymharu â gweddill y DU, ac mae llawer o gwmnïau adeiladu wedi rhoi'r gorau i fasnachu o ganlyniad. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar BBaChau yn arbennig, sy'n ffurfio mwyafrif y sector adeiladu yng Nghymru. Mae cau busnesau a chontractwyr mwy, fodd bynnag, yn dangos nad oes unrhyw fusnes yn imiwn i'r pwysau hyn. Yn fras, mae'r materion hyn yn debyg wrth i ni edrych ar etholiad Senedd 2026 i'r hyn yr oedd y diwydiant yn eu hwynebu cyn etholiad 2021.

Mae'r sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn parhau i fod o'r pwys mwyaf, a bydd methu â buddsoddi a diogelu'r sector yn achosi canlyniadau am flynyddoedd lawer i ddod. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Digidol ar gyfer sector adeiladu Cymru a Datganiad Cenhadaeth Amgylchedd Adeiledig. Er bod CIOB yn cefnogi bwriad yr olaf, sef nodi "gweledigaeth strategol ar gyfer sector adeiladu gwydn, arloesol a chyfrifol yn gymdeithasol"[2], nid oes unrhyw ymrwymiadau deddfwriaethol na rheoleiddiol pendant wedi'u cynnwys, ac mae mawr angen mwy o gefnogaeth i'r sector.

Fodd bynnag, mae llawer o resymau i fod yn optimistaidd am y diwydiant. Mae gan Gymru ecosystem unigryw, gan gynnwys TGAU (neu VCSE o 2027) a Lefel A mewn amgylchedd adeiledig, nad yw ar gael yn y rhan fwyaf o weddill y DU. Yn ogystal, mae deddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail y gellir cyflawni meddwl hirdymor arni, a gall y diwydiant ffynnu. Mae tirwedd Cymru yn addas ar gyfer gyrwyr a chyfleoedd economaidd allweddol, megis amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd, yn ogystal ag ynni adnewyddadwy gwynt, solar a llanw. Bydd gan y sector adeiladu rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau y gall y cyhoedd a chymunedau elwa o unrhyw chwyldro ynni gwyrdd. Yn ogystal, mae CITB yn rhagweld:

Rhagwelir y bydd allbwn adeiladu **yn tyfu 1.2% yn 2025 yng Nghymru**, yn dilyn gostyngiad yn 2024 (-17.8%). Yn y tymor canolig, rhagwelir y bydd allbwn adeiladu ar **gyfartaledd o 1.9% y flwyddyn rhwng 2025 a 2029.**[3]

Yn ogystal, mae CITB yn disgwyl y bydd "Cymru [yn] rhagori'n sylweddol ar y DU o ran twf tai newydd dros y 5 mlynedd nesaf".[4] Mae'r twf arfaethedig hwn, yn enwedig mewn maes allweddol megis tai, yn rheswm i fod yn optimistaidd am y sector, ac mae'n cynnig cyfle i fusnesau a gweithwyr proffesiynol adeiladu yng Nghymru.

**Cefndir Polisi**

Rhai deddfwriaethau allweddol a fydd yn effeithio ar y sector adeiladu:

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*
- *Deddf Caffael y DU (a fabwysiadwyd gan gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd)*
- *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (yn dod i rym ddechrau 2026)*
- *Safon Ansawdd Tai Cymru (2023)*
- *Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)*



# Cyflwyniad

## **Manifesto CIOB 2021:** Beth sydd wedi'i gyflawni?



### Ansawdd Adeiladu a Diogelwch:

**Galwodd ein Maniffesto yn 2021 am "gynyddu buddsoddiad mewn adeiladu, i greu adeiladau newydd diogel o ansawdd uchel a gwella ac addasu eiddo presennol, er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn eu defnyddio."**

Gwnaeth y Maniffesto hefyd "annog Llywodraeth (Cymru) i weithredu canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Tân i barhau i arwain ar wella safonau diogelwch ac ansawdd adeiladau presennol, ac i sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi'r diwygiad hwn yn ddigonol." Ymrwymodd Llywodraeth Cymru £375m i adfer diogelwch rhag tân i lesddeiliaid, ac yn 2023 roedd tua chwarter o hynny wedi'i wario.[5]

Yn fras, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd y nodau hyn. Yng ngoleuni tân Tŵr Grenfell yn 2017 a'r newidiadau dilynol i gyfundrefn diogelwch adeiladau ledled y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r ddeddfwriaeth hon ac wedi ymgynghori ar nifer o welliannau i'r ddeddfwriaeth i'w cysoni â deddfwriaeth ehangach Cymru. Bydd deddfwriaeth benodol i Gymru yn y maes hwn yn allweddol i lwyddiant y drefn hon, o ystyried y nifer llai o adeiladau uchel iawn a risg uchel yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU, lle mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio deddfu'n bennaf. Ar adeg ysgrifennu, mae Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) wedi'i osod gerbron y Senedd, ac mae'n mynd drwy graffu pwyllgor ar hyn o bryd.

### Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant:

**Galwodd Maniffesto 2021 ar "Lywodraeth Cymru yn y dyfodol i glustnodi cyllid ar gyfer datblygu prentisiaethau gradd mewn meysydd allweddol o brinder, gan gynnwys rheoli adeiladu, arolygu meintiau, rheoli cyfleusterau, a dylunio adeiladau".[6]**

Mae prentisiaethau gradd wedi cael eu creu yn rhai o'r meysydd allweddol hyn yng Nghymru – gyda chefnogaeth CIOB mewn partneriaeth â chyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill – mewn tair prifysgol yng Nghymru.[7] Fodd bynnag, hoffem weld y rhain – a mwy – o brentisiaethau gradd yn cael eu cynnig mewn mwy o brifysgolion yng Nghymru, ynghyd â mwy o ffocws ar fapio sgiliau, er mwyn rhoi cyfle i fyfyrwyr Cymru ddysgu a defnyddio'r cymwysterau hyn yng Nghymru.



1. The Chartered Institute of Building (CIOB), Welsh Election 2021 Manifesto: Our vision for the built environment in Wales (2021), p.3.
2. Construction News, Welsh Government launches construction modernisation drive, (2025).
3 Construction Industry Training Board (CITB), Construction Workforce Outlook Wales: Labour Market Intelligence Report 2025-2029, (2025), p. 8.
4. Construction Industry Training Board (CITB), Construction Workforce Outlook Wales: Labour Market Intelligence Report 2025-2029, (2025), p. 8.
5. Inside Housing, Around a quarter of £375m Welsh building Safety Fund spent so far, (2023).
6. The Chartered Institute of Building (CIOB), Welsh Election 2021 Manifesto: Our vision for the built environment in Wales (2021), p. 8.
7. The Construction Industry Training Board (CITB), Degree apprenticeships in Construction Professions in Wales – Consultation, (2024).

# Argymhellion

**Argymhellion ar gyfer y Llywodraeth Cymru nesaf ac Aelodau'r Senedd (ASau) yn y dyfodol**

Mae gan CIOB dri maes ffocws strategol. Y rhain yw **Ansawdd a Diogelwch**, **Amgylchedd a Chynaliadwyedd**, a **Bylchau Sgiliau**. Mae'r holl argymhellion polisi isod yn ffitio i mewn i o leiaf un o'r meysydd ffocws hyn.

Mae CIOB yn amlinellu pum argymhelliad polisi allweddol yn y Maniffesto hwn ar gyfer y Llywodraeth Cymru nesaf.

## 01 Datblygu a gweithredu cynllun ôl-osod

**Datblygu a gweithredu cynllun ôl-osod ar gyfer y farchnad dai breifat**, gan gynnwys perchnogion-feddianwyr, a **chynllun lliniaru ac adfer amgylcheddol** i amddiffyn yr amgylchedd adeiledig ehangach a'r bobl sy'n ei ddefnyddio, i'w hamddiffyn rhag digwyddiadau tywydd eithafol o ganlyniad i gynhesu byd-eang. Er bod deddfwriaeth a chynlluniau presennol yn dechrau dod i'r amlwg ar gyfer y sector tai cymdeithasol (drwy fentrau Llywodraeth Cymru megis Tai ar y Cyd, y Rhaglen wÔl-osod er mwyn Optimeiddio, a Safon Ansawdd Tai Cymru), nid yw gwersi o'r rhain wedi'u cymhwyso'n llawn i'r sector preifat eto.

## 02 Creu cymhellion ariannol ar gyfer mesurau ôl-osod

**Creu cymhellion ariannol ar gyfer mesurau ôl-osod** ar eiddo ar gyfer pob deiliadaeth a math o dai. Mae CIOB yn argymell **cynlluniau benthyciadau *Cymorth i Drwsio*** 0% llog, yn ogystal â defnyddio'r system drethu o fewn pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, megis **y dreth gyngor a'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT)**.

## 03 Gwella prosesau caffael

**Gwella prosesau caffael ar gyfer gwaith cyhoeddus**. Er bod deddfwriaeth newydd a basiwyd yn ystod 6ed tymor y Senedd yn anelu at wneud hyn, mae'n aneglur o hyd pa mor llwyddiannus fydd y diwygiadau hyn. **Bydd gwella prosesau tendro a sicrhau eu bod yn cynnwys nodau amser a chost realistig** yn agor y farchnad i fwy o sefydliadau, yn enwedig BBaChau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan sicrhau y gallant **gystadlu'n** deg â sefydliadau eraill, **a chadw sgiliau pwysig yng Nghymru** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## 04 Wella hyfforddiant a chadw gweithwyr proffesiynol adeiladu

Mabwysiadu golwg fwy cyfannol ar sgiliau adeiladu, gan symud y ffocws o gael pobl *ifanc* i mewn i'r sector yn unig, i sut i annog *pobl o bob oed a chefndir* i mewn i'r sector. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector adeiladu i **wella hyfforddiant a chadw gweithwyr proffesiynol adeiladu** o gefndiroedd amrywiol. Yn benodol, sut gellir defnyddio cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru – er enghraifft o ran annog **cyn-droseddwyr** i weithio – i leihau'r bwlch sgiliau yn y diwydiant adeiladu? A pha fesurau a rhaglenni arloesol eraill y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi'r sector yn well?

## 05 Cynnal arolwg sgiliau ledled Cymru

Cynnal **arolwg sgiliau** ledled Cymru i nodi pa sgiliau sydd eu hangen a ble, yn enwedig yng ngoleuni arolwg cyflwr tai yn y dyfodol. Yna gall cwmnïau adeiladu ddefnyddio'r wybodaeth hon i uwchsgilio gyda hyder. Nid yw Rhestr o Alwedigaethau lle Ceir Prinder Llywodraeth y DU yn manylu digon ar ***ble* mae angen sgiliau penodol yng Nghymru, sut y gallant gefnogi diwydiant, a pha gefnogaeth sydd angen ei chynnig i uwchsgilio yn y meysydd hyn**. Bydd cynnal arolwg sgiliau gyda'r tri ffocws hyn yn golygu y gall cyrff megis CIOB a sefydliadau addysgol **ddylunio cyrsiau'n well** y maent yn gwybod y byddant yn werthfawr, a gall Llywodraeth Cymru yn y dyfodol **gynnig cyllid lle bo'n briodol** gyda'r hyder y caiff ei ddefnyddio'n dda.



01

# Datblygu a gweithredu cynllun ôl-osod

Datblygu a gweithredu **cynllun ôl-osod ar gyfer y farchnad dai breifat**, gan gynnwys perchnogion-feddianwyr, a **chynllun lliniaru ac adfer amgylcheddol i amddiffyn yr amgylchedd adeiledig ehangach** a'r bobl sy'n ei ddefnyddio i'w hamddiffyn rhag digwyddiadau tywydd eithafol o ganlyniad i gynhesu byd-eang. Er bod deddfwriaeth a chynlluniau presennol yn dechrau dod i'r amlwg ar gyfer y sector tai cymdeithasol drwy fentrau Llywodraeth Cymru megis Tai ar y Cyd, y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a Safon Ansawdd Tai Cymru, nid yw gwersi o'r rhain wedi'u cymhwyso'n llawn i'r sector preifat eto.

# Datblygu a gweithredu cynllun ôl-osod

**Byddai cynllun ôl-osod hirdymor, cydgysylltiedig yn mynd yn bell i roi sicrwydd a hyder i'r sector, gan sicrhau y gallant elwa o uwchsgilio eu gweithlu mewn sgiliau gwyrdd, a thrwy hynny, gobeithio, ddiogelu eu busnes ar gyfer y dyfodol am flynyddoedd i ddod. Mewn ymchwil diweddar gan CIOB, Tirwedd Adeiladu BBaCh yng Nghymru | Dadansoddiad Ffactorau Risg, nododd gweithwyr adeiladu proffesiynol fod diffyg data a gwybodaeth yn rhwystr sylweddol i uwchsgilio. O ran Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn benodol, nododd gweithwyr proffesiynol adeiladu:**

*Ni all awdurdodau lleol gynnig cyllid i gontractwyr i ymgymryd â phrosiectau adfer ac ôl-osod o safon ar eiddo heb sgiliau a chymwyseddau penodol… ond maent yn ansicr ynghylch manylion yr hyn y bydd ei angen arnynt. I gael ateb, byddai'n rhaid iddynt gynnal arolygon manwl ar filoedd o eiddo, pob un â'i anghenion penodol ei hun, ac nid oes digon o adnoddau na chyllid ar gyfer hynny.*[8]

Heb yr hyder hwn a chynllun hirdymor i warantu elw ar fuddsoddiad, mae llawer o fusnesau bach a chanolig, a hyd yn oed sefydliadau adeiladu mwy, yn cael eu gorfodi i lynu wrth y status quo, er anfantais i arloesedd ac amcanion Llywodraeth Cymru.

I gefnogi'r cynllun hwn, mae CIOB wedi galw ers tro am gynnal arolwg newydd o gyflwr ac ansawdd tai i nodi meysydd problemus ar draws deiliadaeth, math a daearyddiaeth tai, fel y gall y sector adeiladu uwchsgilio mewn meysydd lle mae bylchau penodol a sicrhau tai digonol ledled Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2017/18, ac ers hynny mae argyfyngau economaidd parhaus a gwaethygu cyflwr atgyweirio o ganlyniad i bandemig Covid-19 – pan na ellid gwneud gwaith, parhaodd i waethygu, ac yna daeth yn rhy ddrud i berchennog y tŷ ei atgyweirio – felly mae'n debygol bod ansawdd y tai wedi gwaethygu ers cynnal yr arolwg hwnnw. Bydd data cywir, ymarferol yn allweddol i ddiogelu stoc tai Cymru, sydd ymhlith yr hynaf yn y DU.[9] Felly, rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2025 y byddai arolwg tai newydd yng Nghymru.

Mae CIOB yn parhau i fod yn agnostig o ran technoleg i raddau helaeth, a bydd yn cefnogi rhaglenni a chynlluniau peilot Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar dechnolegau arloesol megis rhwydweithiau gwres domestig.

Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, fod hydrogen wedi'i wrthbrofi i raddau helaeth fel dull o wresogi domestig, o ystyried yr amserlenni sy'n angenrheidiol i brofi ei fod yn gweithio'n ddigon da ac yn ddiogel, efallai yn fwyaf nodedig gan gorff ymgynghorol Llywodraeth y DU, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC), barn a adleisir gan Lywodraeth Cymru.[10] Mae'n hanfodol bod y Llywodraeth Cymru nesaf hefyd yn mabwysiadu'r agwedd hon. Mae hyder y cyhoedd hefyd yn isel mewn gwresogi hydrogen, fel y dangosir mewn nifer o achosion lle mae prosiectau peilot wedi'u canslo oherwydd gwrthwynebiadau deiliaid.[11] Dylai unrhyw strategaeth gwresogi domestig yn y dyfodol ganolbwyntio ar dechnoleg brofedig, ac wedi'i thrydaneiddio'n bennaf lle mae'r sefyllfa'n caniatáu, megis pympiau gwres sydd wedi'u profi i fod yn addas ar gyfer y mwyafrif helaeth o eiddo. Bydd canolbwyntio ar y technolegau hyn sydd ar gael yn rhwydd yn creu hyder o fewn y diwydiant adeiladu i uwchsgilio eu gweithlu a chreu ecosystem sgiliau lle mae'r meysydd hyn yn cael blaenoriaeth.

Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, nad yw "ôl-osod" yn cwmpasu datgarboneiddio gwresogi domestig a mesurau inswleiddio yn unig. Yn ddiweddar, dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) y dylai "y DU fod yn barod i ymdopi ag eithafion tywydd o ganlyniad i o leiaf 2˚C o gynhesu byd-eang erbyn 2050".[12] Mae hyn yn uwch na'r 1.5˚C o gynhesu y mae Cytundeb Paris wedi methu â'i gyflawni hyd yn hyn.

Mae eithafion tywydd diweddar – gan gynnwys llifogydd sydyn a thonnau gwres ar draws llawer o Gymru – wedi dangos bod ein tai, ein seilwaith, ein hamgylchedd adeiledig ehangach, ac wrth gwrs, y bobl sy'n byw yn yr asedau hyn ac yn eu defnyddio, yn wynebu risgiau. Mae ein tai wedi'u cynllunio i inswleiddio a chadw gwres, ac yn hanesyddol mae rhaglenni ôl-osod ar raddfa fawr wedi canolbwyntio ar inswleiddio eiddo, sy'n creu gorboethi problemus.

Felly, dylai unrhyw gynllun ôl-osod gynnwys mesurau i leihau gorboethi mewn cartrefi. Mae inswleiddio yn parhau i fod yn bwysig yn y misoedd oerach, ac ar gyfer effeithlonrwydd ynni ehangach, ond ni all ddod ar draul eiddo yn gorboethi.

8. The Chartered Institute of Building (CIOB), The SME Construction Landscape in Wales | Risk Factor Analysis, (2024) p. 21.
9. BRE Trust, The Housing Stock of the United Kingdom, (2020), p. 2.
10. Welsh Parliament Senedd Research, Hydrogen in Wales 2024: Research Briefing, (2024), p. 17.
11. The Guardian, Third pilot of household hydrogen heating shelved by UK Government, (2024).
12. BBC, Government told to prepare for 2C warming by 2050, (2025).



02

# Creu cymhellion ariannol ar gyfer mesurau ôl-osod

Creu **cymhellion ariannol ar gyfer mesurau ôl-osod** ar eiddo ar gyfer pob deiliadaeth a math o dai. Mae CIOB yn argymell **cynlluniau benthyciadau *Cymorth i Drwsio*** 0% llog, yn ogystal â defnyddio'r system drethu o fewn pwerau datganoledig Llywodraeth Cymru, megis **y dreth gyngor a'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT)**.

# Creu cymhellion ariannol ar gyfer mesurau ôl-osod

**Mae'n annhebygol iawn y bydd cynllun ôl-osod a gweithredu yn llwyddo heb newid y strwythurau ariannu sydd ar waith ar gyfer gwresogi datgarboneiddio. Mae strwythurau ariannu presennol, megis Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS) Llywodraeth y DU, yn wynebu nifer isel o bobl yn manteisio arnynt. Canfu ymchwil defnyddwyr CIOB a gynhaliwyd yn 2023 fod llai na 32% o bobl yng Nghymru hyd yn oed yn ymwybodol o Gynllun Uwchraddio Boeleri (BUS) Llywodraeth y DU. Er gwaethaf codi cyllid i uchafswm o £7,500 i osod pwmp gwres, mae angen gwaith adfer sylweddol ar lawer o eiddo i sicrhau bod pwmp gwres yn gweithio'n iawn, ac, o'r herwydd, gallai defnyddwyr fod wedi gorfod talu bil o hyd at £24,000 yn y sefyllfaoedd gwaethaf i ddatgarboneiddio eu systemau gwresogi, hyd yn oed gan ystyried y cyllid. Er iddo gael ei wrthbrofi, mae codi bwganod yn y cyfryngau o hyd ynghylch a yw pympiau gwres yn hyfyw mewn tai, ac mae'n ymddangos bod canfyddiad y cyhoedd ohonynt yn isel.**

O ystyried bod tai yn gyfrifol am 21% o allyriadau carbon Cymru[13] a bod mesurau ôl-osod yn rhy ddrud i lawer o berchnogion tai ymgymryd â nhw, mae angen ffyrdd ychwanegol o ysgogi ôl-osod.

Dylai'r arolwg newydd o gyflwr tai ystyried y ffordd orau o ddatgarboneiddio eiddo (yn debyg i Lwybrau Ynni Targed Safon Ansawdd Tai Cymru), gan ganolbwyntio ar y sector rhentu preifat a pherchnogion-feddianwyr, a'r hyfywedd ariannol i'r farchnad hon ymgymryd â mesurau ôl-osod ar eu traul eu hunain. Gyda hynny mewn golwg, byddai CIOB yn croesawu cymhellion ariannol ychwanegol ar gyfer y cyfnod hwn i sicrhau eu bod yn gallu datgarboneiddio ac elwa ar fanteision ynni adnewyddadwy yn eu cartref, gan gynnwys:

Cynllun benthyciad "Cymorth i Drwsio": Gallai Llywodraeth Cymru, neu bartneriaid ariannol a benthycwyr dibynadwy, gynnig cynllun benthyciadau 0% i alluogi perchnogion tai i wella eu cartrefi. Gallai'r cynllun dalu cost lawn gwelliannau cartref, megis gwydr dwbl, inswleiddio, atal drafftiau, systemau gwresogi newydd, a hyd yn oed gwaith mwy megis estyniadau neu drosi llofft. Bydd gan lawer o'r agweddau hyn fuddion dilynol ar gyfer effeithlonrwydd ynni eiddo. Cynnig benthyciadau ar gyfer gwaith fel hyn yw'r unig ffordd y gallai llawer o berchnogion tai fforddio ymgymryd â'r mesurau hyn, a dylai'r llywodraeth ddatblygu cynllun o'r fath os ydynt o ddifrif eisiau cyrraedd eu targedau lleihau ynni a charbon.

Bydd y mesurau hyn yn lleihau'r defnydd o ynni (ond heb ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y mesurau hyn), yn lleihau allyriadau carbon, ac yn gostwng biliau defnyddwyr, yn ogystal â sicrhau bod yr adeilad yn ddigon effeithlon ar gyfer gwaith ôl-osod pellach yn y dyfodol.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd archwilio mesurau i ddefnyddio'r system drethu i ysgogi datgarboneiddio. Mae Treth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gyngor wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, ond hyd yn hyn nid ydynt wedi'u codi i roi cymhelliant i berchnogion tai. Mae CIOB yn credu bod lle i leihau'r beichiau treth uchod neu, yn achos LTT, eu dileu'n gyfan gwbl mewn rhai sefyllfaoedd, er mwyn rhyddhau arian i bobl ei ddefnyddio yn lle hynny ar ddatgarboneiddio eu heiddo.

Gellid lleihau'r Dreth Gyngor, er enghraifft, ar eiddo lle mae perchnogion-feddianwyr neu landlordiaid preifat wedi gwella sgôr effeithlonrwydd ynni eiddo[14], neu wedi lleihau ei ddefnydd o ynni yn sylweddol. Gallai'r cymhelliant ychwanegol hwn, ynghyd ag arbedion cost hirdymor mesurau effeithlonrwydd ynni, fod yn ddigon i ysgogi nifer fawr o ddeiliadaethau tai preifat i ddatgarboneiddio eu heiddo pan fo'r mesurau hyn yn rhy ddrud i lawer.

Mae CIOB hefyd wedi cynnig gohirio'r Dreth Trafodiadau Tir ar eiddo buddsoddi yn y gorffennol, lle mae buddsoddwyr yn cael eu hannog i atgyweirio stoc tai hŷn, efallai gwag, llai effeithlon o ran ynni cyn eu hailwerthu ar y farchnad agored. Yn yr achosion hyn, ni fyddai'r buddsoddwyr yn talu'r LTT, ond pan werthir yr eiddo wedi'i wella, sy'n fwy effeithlon o ran ynni i berchennog newydd, yna telir yr LTT gan y prynwr newydd. Yn aml, mae prynwyr yn anwybyddu'r eiddo hyn am y byddai'r gwaith i'w trwsio yn rhy ddrud, ond gallai gohirio'r Dreth Trafodiadau Tir – ac efallai cyplysu hyn â grantiau o unrhyw fersiwn newydd o Gynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – annog buddsoddwyr i gymryd yr eiddo hyn, eu gwella i'r safon, a golygu bod cartrefi gwag, adfeiliedig Cymru unwaith eto yn dod yn addas i fyw ynddynt, yn ddiogel, yn wyrdd ac yn gyfforddus.

13. Welsh Government, Decarbonising Welsh Homes: Stage 2 Report, (2019), p. 17.
14. h.y. i sgôr EPC penodol. Er bod CIOB yn credu nad yw EPC, yn gyffredinol, yn addas at y diben, dyma'r fframwaith mae'n rhaid i ni weithio ynddo ar hyn o bryd.

03

# Gwella prosesau caffael

**Gwella prosesau caffael ar gyfer gwaith cyhoeddus**. Er bod deddfwriaeth newydd a basiwyd yn ystod 6ed tymor y Senedd yn anelu at wneud hyn, mae'n aneglur o hyd pa mor llwyddiannus fydd hyn. **Bydd gwella prosesau tendro a sicrhau eu bod yn cynnwys nodau amser a chost realistig** yn agor y farchnad i fwy o sefydliadau, yn enwedig BBaChau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan sicrhau y gallant **gystadlu'n** deg â sefydliadau eraill, **a chadw sgiliau pwysig yng Nghymru** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



# Gwella prosesau caffael

**Yng Nghymru, mae 99% o gwmnïau adeiladu yn fentrau bach a chanolig (BBaChau), ac mae 96% ohonynt yn cyflogi llai na 13 o bobl.[15] Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod cyfraniad ariannol busnesau bach a chanolig i'r sector cyhoeddus oddeutu £7 biliwn.[16] Er gwaethaf hyn, dangosodd ymchwil CIOB fod caffael yn rhwystr enfawr i gwmnïau adeiladu bach a chanolig am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig nad oedd ganddynt yr un adnodd caffael pwrpasol â chontractwyr mwy, proses dendro gymhleth, a chyfyngiadau ariannol ac amser afrealistig ar gyfer prosiectau.[17]**

Mae rhai polisïau diweddar, megis *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)*, a fydd yn dod i rym yn 2026, yn ceisio cynyddu cyfleoedd i BBaChau mewn prosiectau adeiladu cyhoeddus dros £2 filiwn. Er bod cyflwyno'r mesurau hyn i'w groesawu, ac mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r problemau y mae'r sector adeiladu yn eu hwynebu, yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant y ddeddf hon fydd monitro, gorfodi a chymesuredd llym.

Mae CIOB, felly, yn annog y Llywodraeth Cymru nesaf i gyflwyno datganoli pellach ar gyfer tendro a chaffael i awdurdodau lleol, gyda'r amod bod angen i hyn fynd ochr yn ochr â chyllid, adnoddau a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y cyrff hyn. Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa unigryw i nodi a dod o hyd i gyflenwyr a chontractwyr lleol a all ymgymryd â gwaith yn gymwys, heb orfod dibynnu ar sefydliadau mwy (fel y bu'r diofyn, yn hanesyddol, oherwydd gallant gymryd mwy o risgiau ariannol wrth dendro am brosiectau), ac anwybyddu BBaCHau.

Canfu ymchwil CIOB i'r Dirwedd Adeiladu yng Nghymru hefyd fod y broses gofrestru ar gyfer *GwerthwchiGymru* – y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei defnyddio yn ôl deddfwriaeth Llywodraeth Cymru – yn llafurus ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Pan gawsant eu cofrestru, fodd bynnag, mae'r system yn gweithio i raddau helaeth fel y bwriadwyd. Wedi dweud hynny, mae'r broses dendro ei hun yn cymryd llawer o amser. Mae hyn yn broblemus i lawer o fusnesau llai, ac nid oes gan lawer ohonynt yr amser na'r adnoddau i'w neilltuo i wneud cais am yr holl dendrau hyn. Yn ogystal, pan fyddant yn aflwyddiannus ac wedi treulio llawer o amser yn gwneud cais, ni chynigir unrhyw adborth, a all eu gwneud yn annhebygol o wneud cais am brosiectau eraill yn y dyfodol.

Mae cyfleoedd, fodd bynnag, i gontractau islaw'r trothwy gynnwys awdurdodau lleol yn well, sydd mewn sefyllfa unigryw i nodi busnesau lleol a fydd yn cadw eu heconomi leol yn ffynnu ac yn gwneud y gwaith gorau.

15. Constructing Excellence Wales (CEW), Construction By Numbers 2019, October 2019, p. 2.
16. Welsh Government, Welsh Procurement Policy Note WPPN 07/21: Small and Medium sized Enterprises (SMEs)-friendly procurement, (2023).
17. The Chartered Institute of Building (CIOB), The SME Construction Landscape in Wales | Risk Factor Analysis, (2024) p. 2, p. 4.

04

# Wella hyfforddiant a chadw gweithwyr proffesiynol adeiladu

Mabwysiadu golwg fwy cyfannol ar sgiliau adeiladu, gan symud y ffocws o gael pobl *ifanc* i mewn i'r sector, ac ar ben hynny sut i annog pobl i mewn i'r sector. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector adeiladu i **wella hyfforddiant a chadw gweithwyr proffesiynol adeiladu** o gefndiroedd amrywiol. Yn benodol, sut gellir defnyddio cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru – er enghraifft o ran annog **cyn-droseddwyr** i weithio – i leihau'r bwlch sgiliau yn y diwydiant adeiladu? A pha fesurau a rhaglenni arloesol eraill y gellir eu rhoi ar waith i gefnogi'r sector yn well?



# Wella hyfforddiant a chadw gweithwyr proffesiynol adeiladu

**Mae CIOB wedi galw ers tro am ffyrdd arloesol o gynyddu'r sylfaen sgiliau yn y sector adeiladu. Heb y sgiliau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn methu â darparu tai cymdeithasol a sector cyhoeddus da i Gymru.**

Nid yw'r biblinell sgiliau draddodiadol yn y sector – prentisiaethau yn bennaf ar gyfer pobl 16-18 oed – yn ddigonol mwyach. Mae cystadleuaeth ar ei huchaf erioed am rolau lefel mynediad, ac ni all llawer o gwmnïau adeiladu yng Nghymru, yn enwedig BBaChau, fforddio prentisiaid. Mae hyn am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys darparu digon o fentora cynaliadwy sy'n golygu colli rhywfaint o gynhyrchiant ar y safle, yn ogystal â pheidio â chael cyflenwad cynaliadwy o waith i hyfforddi prentis i lefel gymwys addas. Mae problemau gyda chanfyddiad hefyd o fewn y diwydiant, sy'n golygu bod llai o bobl ifanc, rhieni ac athrawon yn gweld gwerth mewn gyrfa yn y diwydiant adeiladu: dangosodd arolwg diweddar gan y CIOB fod 68% o bobl ifanc yng Nghymru rhwng 16 a 24 oed â barn gadarnhaol am y sector adeiladu, ond dywedodd llai na 30% y byddent yn ystyried gyrfa yn y sector. Yn ogystal, dywedodd 40% o bobl ifanc yng Nghymru nad oedd gyrfaoedd adeiladu wedi'u cynnwys yn y cyngor gyrfaoedd a gawsant tra'r oeddent mewn addysg.

Er yn anochel bod a bydd prentisiaethau yn hanfodol i'r sector adeiladu, hoffai CIOB weld y Llywodraeth Cymru nesaf yn symud ei ffocws o gael pobl ifanc i'r diwydiant yn unig, ac yn hytrach canolbwyntio ar bobl yn fwy cyffredinol. Hynny yw, mae cyfoeth o sgiliau trosglwyddadwy y gellid eu defnyddio'n dda yn y sector adeiladu, gan gynnwys y rhai a ddiswyddwyd yn ddiweddar o Tata Steel ym Mhort Talbot.

Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan CIOB i hyfforddi cyn-droseddwyr i'r sector adeiladu yn un ffordd o wneud hyn, ac rydym yn falch o fod yn cyd-ariannu cynllun peilot yng Nghymru i hyfforddi carcharorion ar glustffonau rhith-wirionedd yn ystod eu dedfrydau i roi gwybodaeth sylfaenol iddynt am y sector adeiladu ac, efallai'n bwysicach fyth, diddordeb yn y sector a dealltwriaeth o'r rolau sydd ar gael ynddo. Yn ogystal, bydd cynlluniau fel hyn yn nodi pobl sydd â dawn mewn sgiliau adeiladu, ac yn eu hannog i chwilio am yrfaoedd yn y sector ar ôl cael eu rhyddhau. Byddem yn croesawu'r cyfle i gyfarfod ag aelodau'r 7fed Senedd a Llywodraeth Cymru nesaf i drafod gwersi a chamau nesaf y prosiect peilot hwn.

Yn ogystal, yn eu Maniffesto, mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) yn amlinellu cynlluniau i "gryfhau ein gweithlu nawr gyda'r egni, y sgiliau a'r uchelgais y mae ceiswyr lloches yn eu cynnig".[18] Mae'r WRC yn nodi adeiladu fel un maes o'r fath a allai elwa o'r cyfoeth o brofiad y gall ceiswyr lloches ei gynnig, ac mae'n cynnig senario lle mae pawb ar eu hennill lle gall ceiswyr lloches gynnal eu teuluoedd heb ddibynnu ar gefnogaeth y Llywodraeth, byddant yn cyfrannu at yr economi drwy drethi, a bydd gan fusnesau adeiladu Cymru gyflenwad parod o weithwyr medrus a brwdfrydig i fodloni'r galw sydd ar ei fwyaf erioed.[19] Mae CIOB yn gweithio gyda'r WRC i sicrhau bod cwmnïau adeiladu mewn sefyllfa dda i gynnig cyfleoedd i'r bobl hyn.

18. Sanctuary Coalition Cymru & Welsh Refugee Council, Sanctuary That Works For Wales, (2025), p. 3.
19. Institute of Welsh Affairs (IWA), What if the solution to Wales' skills crisis was already here – but trapped by red tape?, (2025).



05

# Cynnal arolwg sgiliau ledled Cymru

Cynnal **arolwg sgiliau** ledled Cymru i nodi pa sgiliau sydd eu hangen a ble, yn enwedig yng ngoleuni arolwg cyflwr tai yn y dyfodol. Yna gall cwmnïau adeiladu ddefnyddio'r wybodaeth hon i uwchsgilio gyda hyder. Nid yw Rhestr o Alwedigaethau lle Ceir Prinder Llywodraeth y DU yn manylu digon ar ***ble*** **mae angen sgiliau penodol yng Nghymru,** ***sut*** **y gallant gefnogi diwydiant**, a ***pha*** **gefnogaeth sydd angen ei chynnig i uwchsgilio yn y meysydd hyn**. Bydd cynnal arolwg sgiliau gyda'r tri ffocws hyn yn golygu y gall cyrff megis CIOB a sefydliadau addysgol **ddylunio cyrsiau'n well** y maent yn gwybod y byddant yn werthfawr, a gall Llywodraeth Cymru yn y dyfodol **gynnig cyllid lle bo'n briodol** gyda'r hyder y caiff ei ddefnyddio'n dda.

# Cynnal arolwg sgiliau ledled Cymru

**Dim ond os gwyddom ble orau i roi'r sgiliau hynny i'w defnyddio y bydd y cynnig blaenorol ynglŷn â mabwysiadu dull mwy cyfannol o ymdrin â sgiliau yng Nghymru yn llwyddiannus. O'r herwydd, mae CIOB yn galw am arolwg sgiliau Cymru i ddeall anghenion y sector adeiladu a sut mae'r rhain yn amrywio ledled Cymru. Rydym yn gwybod, er enghraifft, fod canolbarth a gogledd Cymru yn wynebu pwysau sgiliau gwahanol i'r de-ddwyrain, ac maent yn colli doniau potensial a phresennol yn gyson i brosiectau ar raddfa fwy mewn mannau eraill yng Nghymru a thros y ffin i ardaloedd megis Glannau Merswy.**

Ar gyfer y sector tai, bydd yr arolwg cyflwr tai a grybwyllwyd uchod yn mynd yn bell i nodi'r bylchau hyn, yna gall cwmnïau adeiladu uwchsgilio neu ailhyfforddi staff gyda'r hyder o gael elw ar eu buddsoddiadau. Bydd hefyd modd defnyddio'r sgiliau hyn yn asedau'r sector cyhoeddus, megis ysbytai, y mae llawer ohonynt mewn gwahanol gyflyrau o adfeiliad.

Er bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Rhestrau o Alwedigaethau lle Ceir Prinder yn flaenorol, ac yn fwy diweddar Rhestrau Cyflogau Mewnfudwyr, gellir dadlau bod y rhain yn rhy Eingl-ganolog, yn eang, ac yn llai perthnasol i anghenion Cymru.

Mae Aelodau'r Senedd (ASau) o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol wedi galw am fentrau tebyg, ac mae CIOB mewn sefyllfa dda i gefnogi o safbwynt sgiliau adeiladu. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle i nodi meysydd sy'n gyfagos i adeiladu sydd angen mwy o ffocws, gan gynnwys y sector cynllunio. Bydd nodi prinderau yn y system gynllunio, ble mae'r rhain yn digwydd ledled Cymru ac ym mha adrannau, yn ogystal â sicrhau bod staff presennol wedi'u hyfforddi'n dda ym mhob agwedd ar y broses gynllunio, yn rhoi targedau clir i Lywodraeth Cymru ac yn dileu un achos o oedi prosiectau.[20]

Byddai hyn, yn wir, yn golygu bod y sgiliau maen nhw'n eu dysgu – boed yn berson ifanc mewn prentisiaeth adeiladu neu'n rhywun sy'n cael hyfforddiant neu eu hailhyfforddi yn ddiweddarach mewn oes – yn werthfawr, ac yn caniatáu iddynt weithio lle bynnag yng Nghymru maen nhw'n dewis. Bydd hyn hefyd yn arwain at fanteision dilynol i gymunedau, a'r nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, oherwydd gallai mwy o bobl fod eisiau aros yn eu trefi genedigol gyda'u teuluoedd.

20 Yn ôl ymchwil CIOB Y Dirwedd BBaChau yng Nghymru | Dadansoddiad Ffactorau Risg, roedd BBaChau adeiladu yn credu'n llethol mai oedi wrth roi caniatâd cynllunio, SAB, ac awdurdodiad priffyrdd oedd un o brif achosion oedi prosiectau yng Nghymru.

© Senedd Photography
flickr.com/people/seneddcymru
creativecommons.org/licenses/by/4.0/deed.en#ref-appropriate-credit

**The Chartered Institute of Building,**

3 Arlington Square,
Downshire Way,
Bracknell,
RG12 1WA, UK

Tel: +44 (0)1344 630 700

**ciob.org**

Registered Charity No.
(England and Wales)
280795 and
(Scotland) SCO41725

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Gold

© Copyright 2026

CIOB
The Chartered Institute of Building